# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 04 TACHWEDD 2021

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Anwen Hughes, Peredur Jenkins, Eric M Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Peter Read, Dewi W Roberts, Mair Rowlands, Angela Russell, Dyfrig Siencyn a Gethin Glyn Williams

**Swyddogion:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Corfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaethau Ymgynghorol Adnoddau Dynol) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

Cynghorydd Elwyn Jones (Is-Gadeirydd y Cyngor)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Eryl Jones-Williams a Cyng. Simon Glyn (Cadeirydd y Cyngor).

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

## 3. MATERION BRYS

Dim i'w nodi

## 4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf 2021 fel rhai cywir

## 7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig.**

## 8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH CYLLID

Adroddodd y Cadeirydd bod 2 gais wedi ei derbyn am y swydd.

Gwahoddwyd y Prif Weithredwr i gyflwyno crynodeb ar y ceisiadau. Trafodwyd y ceisiadau yn unol â gofynion y swydd gan ganolbwyntio ar y prif gymwyseddau.

**PENDERFYNWYD RHOI DAU YMGEISYDD AR Y RHESTR FER**

Wrth ymhelaethu ar y camau nesaf, amlygodd Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol y byddai canolfan asesu yn cael ei chynnal yn ystod wythnos yn cychwyn y 15 Tachwedd. Bydd adroddiad ffurfiol o ymatebion yr ymgeiswyr yn cael ei ddarparu gan y ganolfan asesu i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.

Trafodwyd pum cwestiwn a thestun cyflwyniad priodol ar gyfer y cyfweliad.

Bydd dyddiad y cyfweliadau i'w gadarnhau.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:30pm a daeth i ben am 3:15pm